# Ysgol Llanhari

## Pecyn Pontio

GORAU GWASANAETH GWAITH

*Cymuned – Cymreictod – Cynnydd*

3ydd o Fehefin 2026

# PONTIO BLWYDDYN 6 i 7 2026

Annwyl Riant/Ofalwr,

Diolch am ddewis Ysgol Llanhari ar gyfer addysg uwchradd i'ch plentyn. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i groesawu eich plentyn fel aelod swyddogol o deulu Llanhari ym mis Medi!

Yn dilyn ymweliadau trosglwyddo llwyddiannus eleni, mae eich plentyn wedi cael blas ar fywyd yn Llanhari ynghyd â chyfleoedd i ddod i adnabod rhai o'r staff a disgyblion eraill. Mawr obeithiwn fod eich plentyn wedi elwa o'r profiadau hyn ac yn teimlo'n hyderus am gychwyn yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi.

Mae'n bwysig bod disgyblion yn cydymffurfio'n llawn â'r disgwyliadau sydd yno i bob disgybl yn yr ysgol. Mae'r pecyn hwn yn amlinellu'r disgwyliadau hyn a gofynnwn i chi drafod 'rhain gyda'ch plentyn cyn iddo/iddi gychwyn gyda ni ym mis Medi. Mae'r wybodaeth hon hefyd wedi cael ei rhannu gyda'r disgyblion yn ystod ein diwrnodau trosglwyddo.

**Gwybodaeth Feddygol**

Os oes unrhyw wybodaeth feddygol y mae angen i ni wybod amdano cyn y diwrnod cyntaf nad ydych wedi'i drosglwyddo hyd yn hyn, oes modd i gysylltu gyda Mr John Rivers, Arweinydd Cynnydd Bl 7 cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda ar post@llanhari.cymru

Os yw cyflwr meddygol eich plentyn yn golygu bod angen i staff ei (h)adnabod yn syth ym mis Medi, yna gofynnwn yn garedig i chi anfon llun electronig o'ch plentyn. Byddwn yn gofyn i bob rhiant gwblhau ffurflen fanwl ym mis Medi.

**Amseroedd y Dydd**
Mae'r ysgol yn dechrau am 8.30yb ac yn gorffen am 3.00yp. Bydd y disgybl yn derbyn 5 gwers, 60 munud o hyd bob dydd, ynghyd ag amser bugeiliol/tiwtor am 8.35yb. Gweler yr amserlen isod:

| AMSEROEDD Y DYDD | | |
|---|---|---|
| Cofrestru | 8.35 | 9.00 |
| Gwers 1 | 9.00 | 10.00 |
| Egwyl | 10.00 | 10.20 |
| Gwers 2 | 10.20 | 11.20 |
| Gwers 3 | 11.20 | 12.20 |
| Cinio | 12.20 | 13.00 |
| Gwers 4 | 13.00 | 14.00 |
| Gwers 5 | 14.00 | 15.00 |

**Offer Angenrheidiol**
Mae disgwyl i bob disgybl ddod â'r offer canlynol i'r ysgol bob dydd:

- Beiro
- Pensil
- Pensiliau Lliw
- Rwber
- Naddwr
- Pren Mesur
- Cyfrifiannell (Gwyddonol os yn bosib)
- Onglydd
- Cwmpawd

Mae'n syniad da i labelu holl eiddo eich plentyn i hwyluso'r broses o chwilio am eiddo coll.

**Ffonau Symudol ac Offer Electronig**
Caniateir i ddisgyblion ddod a ffôn i'r ysgol os ydych chi fel rhiant/gwarcheidwad yn hapus â hyn, ond mae'n rhaid iddo fod wedi ei droi i ffwrdd yn ystod gwersi ac yn y coridorau ac ar waelod y bag. Os ydynt yn torri'r rheolau hyn, mae hawl gan athro i gymryd y ffôn wrth y disgybl a'i drosglwyddo i'r swyddfa, i'w ddychwelyd ar ddiwedd y dydd. Ni fydd yr ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ffonau symudol sy'n mynd ar goll yn, neu ar y ffordd i/o'r ysgol nac ar ymweliadau addysgiadol.
**Os yw ffôn disgybl yn cael ei drosglwyddo i'r swyddfa dair gwaith mewn hanner tymor, byddwn yn gofyn i'r rhiant/gwarcheidwad ddod i gasglu'r ffôn o'r swyddfa. Ni fydd yn cael ei ddychwelyd i'r disgybl.**

**Eiddo Coll**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer yr eitemau sydd wedi'u gadael yn yr ysgol gan ddisgyblion wedi cynyddu'n sylweddol. Ceisir dychwelyd eitemau i'w perchnogion ond gan nad oes enwau ar y rhan fwyaf o'r eitemau, mae'n amhosib eu dychwelyd i'r perchennog cywir. Gofynnir felly i chi sicrhau bod pob eitem o wisg ysgol yn cael ei labelu gydag enw'r plentyn fel y gellir ei adnabod yn syth a'r ddychwelyd i'ch plentyn petai yn mynd ar goll. Gellir dod o hyd i eitemau sydd wedi'u gadael gan ddisgyblion yn swyddfa'r ysgol.

**Trafnidiaeth Ysgol**
Adran drafnidiaeth Rhondda Cynon Taf sy'n gyfrifol am drefnu trafnidiaeth i'r ysgol. Mae'r sir yn anfon tocynnau teithio ar ffurf pas bws i'r cartrefi yn ystod gwyliau'r haf. **Rhaid cael y tocyn hwn ar gyfer pob taith.** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425001

Os ydych yn bwriadu casglu'ch plentyn o'r ysgol yn y car ar ddiwedd y dydd gofynnwn i chi barchu'r rhieni eraill sydd yn gwneud yr un peth a chymryd gofal o'r disgyblion sydd yn gadael y safle am 3 o'r gloch.

**Trefniadau Talu**
Mae'r ysgol yn defnyddio system ddi-arian Rhondda Cynon Taf er mwyn talu am unrhyw eitemau sydd yn berthnasol i'r ysgol (e.e Gwisg, Arian Cinio, Teithiau, Gwersi Offerynnol, ayyb). Byddwch yn derbyn côd mewngofnodi a'r ddechrau'r flwyddyn academaidd.

**Arian Cinio**
Bydd y disgyblion yn derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio system fiometreg y ffreutur yn ystod y bore cyntaf. Gan na fydd yn bosibl i chi wneud taliad ar lein nes bod eich plentyn ar gofrestr yr ysgol ym mis Medi, gofynnwn yn garedig i chi ddarparu pecyn bwyd iddynt ar gyfer y ddau ddiwrnod cyntaf. Bydd tua £3.50-£4.00 yn ddigon i brynu pryd o fwyd amser cinio. Mae tost a danteithion eraill yn cael eu gweini yn ystod amser egwyl hefyd. Rydym yn annog pob disgybl i ddod â photel ddŵr i'r ysgol bob dydd i'w llenwi o'r ffynhonnau dŵr sydd gennym.
Cofiwch fanteisio ar y grant cinio am ddim os ydych yn deilwng ohono. Os ydych yn ansicr a yw eich plentyn yn deilwng o ginio rhad, neu os hoffech gymorth gyda llenwi'r ffurflen, cysylltwch â'r ysgol ar post@llanhari.cymru

Gellir weld yr arlwy sydd ar gael pob wythnos trwy ddilyn y ddolen isod: https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/SchoolsandLearning/Schoolcatering/Secondaryschoolmeals.aspx

**Gwersi Offerynnol**

Mae modd derbyn y gwersi offerynnol canlynol yn Llanhari:

Mae'r Gwasanaeth Cerdd yn gallu darparu gwersi ar bob un o'r offerynnau canlynol:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Offerynnau Pres** (cornet, trwmped, trombôn, tiwba, corn Ffrengig, corn tenor, ewffoniwm, bariton) | | **Chwythbrennau** (ffliwt, obo, clarinét, sacsoffon, baswn) | **Llinynnau** (feiolin, fiola, soddgrwth, bas dwbl) | **Telyn** (telyn lifer, telyn bedal) |
| **Piano Bysellfwrdd** | **Canu** | **Gitâr** | **Offerynnau Taro** | **Drymiau** |
| *Cofiwch y gall y ddarpariaeth amrywio o ysgol i ysgol. Efallai mai'r rheswm am hyn yw nad yw ysgol eich plentyn ond am i ni gynnig rhai offerynnau neu nad oes digon o ddisgyblion eisiau dysgu. Cysylltwch â ni i gael gwybod mwy.* | | | | |

Os ydy'ch plentyn wedi derbyn gwersi yn y gorffennol, gallwch barhau wrth hysbysu'r Adran Gerddoriaeth yn ystod yr wythnos gyntaf. Atodir mwy o wybodaeth gan y gwasanaeth cerdd am sut i fynd ati i gofrestru eich plentyn.

Gweler y cyfarwyddiau ar gyfer gwneud taliadau. (Atodiad 1)

**Gwisg Ysgol**

Gwelir canllawiau gwisg ysgol Llanhari a gwisg yr Adran Addysg Gorfforol o fewn y pecyn trosglwyddo hwn. Gofynnwn fod eich plentyn yn cydymffurfio â'r canllawiau yma. (Atodiad 2)

Gellir archebu gwisg ysgol ar system dalu Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1), ac yna bydd angen ei gasglu o'r dderbynfa. Gweler y llythyr am ddyddiadau penodol ar gyfer casglu gwisg.

I'r rhai ohonoch sydd yn derbyn grant gwisg ysgol ac adnoddau, bydd y wybodaeth hon yn cael ei hanfon atoch ar wahân cyn diwedd y tymor hwn gan yr ysgol gynradd.

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/Freeschoolmeals.aspx

**Cyswllt Ysgol**

Fel Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 7, Mr John Rivers fydd eich cyswllt o fewn yr ysgol.   Os ydych am drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â bywyd ysgol eich plentyn, peidiwch ag oedi i ffonio swyddfa'r ysgol (01443 237824) neu e-bostio (post@llanhari.cymru) gyda'ch ymholiad. Byddwn yn ymateb i'ch cais cyn gynted â phosib. Byddwch yn ymwybodol na allwn warantu y bydd rhywun ar gael i weld rhiant/gwarcheidwad sy'n dod i'r ysgol heb wneud apwyntiad ymlaen llaw.

**Aelodau'r Tim Arwain**

| | |
|---|---|
| Mrs Meinir Thomas | Pennaeth |
| Mrs Ffion Porter | Dirprwy Bennaeth |
| Mr Marc Evans | Pennaeth Cynorthwyol |
| Mrs Cath Webb | Pennaeth Cynorthwyol |
| Mrs Elen George | Pennaeth Cynorthwyol |
| Mrs Elin Hobbs | Pennaeth Cynorthwyol |
| Mr Lloyd Owens | Pennaeth Cynorthwyol Cysylltiol |
| Miss Angharad Morgan | Pennaeth Cynorthwyol Cysylltiol |

**Cefnogaeth Cynnydd a Lles**

| **Staff** | **Rôl** |
|---|---|
| Mr John Rivers | Arweinydd Cynnydd Bl 7 |
| Mrs Elen George | Pennaeth Cynorthwyol Lles Chynhwysiant a Swyddog Diogelu Plant |
| Mrs Elin Hobbs | Pennaeth Cynorthwyol a CADY a Dirprwy Swyddog Diogelu Plant |
| Mrs Janice Cowan | Swyddog Lles yr ysgol |
| Mrs Sera Minton | Arweinydd yr Hafan |

**Cyfathrebu â rhieni - Bromcom**

Ym mis Medi byddwn yn eich gwahodd i gofrestru ar gyfer ein system gyfathrebu, Bromcom.  Byddwn yn danfon holl ohebiaeth yr ysgol ac asiantaethau allanol trwy'r wefan hon.  Er mwyn hwylustod, mae modd lawr lwytho'r ap 'My Child at School' i'ch ffôn symudol.

Bydd yr ap hefyd yn dangos cofnod cyfredol o bresenoldeb eich plentyn, eu hamserlen, cofnod o dasgau gwaith cartref ynghyd a'r nifer o bwyntiau clod/ymddygiad mae'ch plentyn wedi'i dderbyn.   Byddwch hefyd yn medru cofnodi absenoldeb eich plentyn drwy ddefnyddio'r ap.

Gweler y cyfarwyddiau ar gyfer mewngofnodi ym mis Medi . (Atodiad 3)

**Grwpiau Dysgu a Chofrestru**

Caiff disgyblion eu gosod mewn grwpiau dysgu gallu cymysg ym mis Medi gan ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys grwpiau ffrindiau, anghenion ychwanegol a sgiliau cymdeithasol. Byddwn hefyd yn rhannu dosbarth cofrestru eich plentyn ar y diwrnod trosglwyddo olaf.

**Gweithgareddau Allgyrsiol**

Mae agweddau cymdeithasol yr ysgol yn bwysig. Mae'n cynnig cyfle i ddisgyblion i "fyw'r Gymraeg" a gloywi iaith wrth ei defnyddio mewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae'n datblygu holl agweddau cymeriad a phersonoliaeth y disgybl wrth gynnig profiadau a hybu sgiliau cymdeithasol y tu hwn i waliau'r dosbarth. Trefnir nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol, gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau YEPS. Byddwn yn rhannu mwy o fanylion ac amserlen ym mis Medi. Hysbysir y disgyblion a'r rhieni yn aml ar gyfrif Instagram yr ysgol o'r gweithgareddau wythnosol.

**Ffrindiau Llanhari**

Mae cymdeithas rieni ac athrawon Llanhari – 'Ffrindiau Llanhari' yn awyddus iawn i gael eich cefnogaeth. Mae hwn yn gyfle gwych i chi ddod i adnabod rhieni eraill a staff yr ysgol wrth gefnogi'ch plentyn a'r ysgol. Mae Ffrindiau Llanhari yn cynllunio nifer o weithgareddau megis disco, gigiau cerddorol a chwisiau yn ystod y flwyddyn i godi arian i'r ysgol, ac mae'r cyfraniad hyn yn amhrisiadwy. Cysylltwch a ffrindiaullanhari@gmail.com os allwch gynnig eich cefnogaeth i'r gymdeithas hon. Os ydych yn dymuno cefnogi mewn ffyrdd eraill, e.e. nawdd, marchnata, cynnal gwasanaethau yna cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda.

**Cwrs Trosglwyddo Bl 7**

Rydym yn awyddus i bawb ymuno â ni ar y cwrs preswyl ym Mae Caerdydd, a threulio amser yng nghwmni cyfoedion a staff yr ysgol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r cyfle i ddod i adnabod mwy o'u cyd ddisgyblion a'r staff wrth ymwneud â nifer o weithgareddau hwyliog ac yn wir, cychwyn ymdeimlo fel aelod o deulu Llanhari. Rydych eisoes wedi derbyn llythyr sy'n esbonio mwy am y daith hon.

**Noson Ymgartrefu**
Cynhelir noson rieni yn ystod yr hanner tymor cyntaf pan fydd cyfle i chi gwrdd a thiwtor eich plentyn i gael mwy o wybodaeth am sut mae'ch plentyn yn setlo yn yr ysgol a chyfle i drafod gyda Mr John Rivers, Arweinydd Cynnydd Bl 7. Bydd y dyddiad a fformat y noson yn cael ei gadarnhau ym mis Medi.

**Dilynwch ni!**
Mae nifer o ffyrdd i ddod o hyd i beth sydd yn mynd ymlaen yn Ysgol Llanhari o ddydd i ddydd. Mae gwybodaeth a newyddion yn cael ei arddangos yn rheolaidd ar y cyfryngau canlynol.
Gwefan yr Ysgol: [www.llanhari.cymru](http://www.llanhari.cymru)
Instagram: @ysgol_llanhari

Edrychwn ymlaen yn fawr i groesawu eich plentyn fel disgybl i flwyddyn 7 ac i Deulu Llanhari ym mis Medi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ffonio neu drwy e-bost.

Yn gywir

Mrs Meinir Thomas
Pennaeth

Mrs Ffion Porter
Dirprwy Bennaeth

Mr John Rivers
Arweinydd Cynnydd Bl 7

## ATODIAD 1 – CYFARWYDDIADAU TALIADAU AR LEIN

### GWISG YSGOL, ARIAN CINIO NEU TEITHIAU

1. Ewch i wefan RhCT trwy rhoi **RCT Pay it** yn y bar chwilio, neu defnyddiwch y ddolen isod
   https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Contactus/Payit.aspx
   Cliciwch ar 'School Dinner Money'. Gallwch nawr newid y daenlen i'r Gymraeg.

2. Sgroliwch lawr y dudalen a cliciwch ar **GWNEUD TALIAD >**

3. Mewngofnodwch i'ch cyfrif neu dewiswch **Talu heb gofrestru**

4. Cliciwch ar y ddewislen, dewis Ysgol Llanhari ac yna gwasgwch cyflwyno

   Ysgol/Gwasanaeth y Cy ⌄ **Cyflwyno**

5. Dewiswch eich eitem a'i ychwanegu i'r fasged (gallwch ychwanegu mwy nag un eitem ar y tro)
   ***Ar gyfer talu am ginio ysgol bydd angen mewnbynnu rhif unigryw eich plentyn sy'n cychwyn gyda 5500...***

6. Cliciwch ar y fasged ar dop y dudalen a dewiswch eich ffordd o dalu

### GWERSI OFFERYNOL

Dilynwch camau 1 i 3 uchod.

Cam 4: Ar y ddewislen, dewiswch -Taliadau i'r Gwasanaeth Cerdd

Dilynwch camau 5 a 6

**ATODIAD 2 – GWISG YSGOL**

**RHAN A -CANLLAWIAU GWISG YSGOL LLANHARI**

- **Crys polo du Ysgol Llanhari**

- **Crys Chwys goch swyddogol Ysgol Llanhari, sy'n cynnwys bathodyn yr ysgol**

- **Trowsus**
  Troswsus ysgol du syth gyda llinell hem llac.
  **<u>Ni chaniateir trowsus tynn, 'skinny', leggings na jeans.</u>**





- **Sgert**

Sgert ddu blaen hyd at y benglin. Mae angen i'r sgert fod o hyd synhwyrol.





- **Sanau / Teits**

Sanau du neu gwyn gyda throwsus du
Teits trwchus du gyda sgert

- **Cotiau Ysgol**

Cot dywyll ddu neu glas. Ni ddylai fod logos mawr ar y got.  Ni chaniateir gwisgo cotiau yn yr ystafell ddosbarth. Sylwer nad yw hwdi (na sydd yn hwdi ysgol), yn cael eu caniatáu yn yr ysgol.

- **Esgidiau**

Esgidiau ysgol lledr du gwastad. **<u>Ni chaniateir trainers</u>**










Ni chaniateir disgyblion i wisgo

- Colur
- Gemwaith (mwclis, breichled, tlysau trwyn) ar wahân i stydiau clust.
- Ewinedd wedi eu peintio, ffug neu acrylig

- **Gwallt**

Disgwylir steil a lliw gwallt naturiol. Dylai steil y gwallt fod yn synhwyrol ac yn addas i'r gweithle.

**Os nad yw'r disgyblion â gwisg safonol yna byddwn yn cysylltu â chi fel rhieni ac yn gofyn am eich cyfweithrediad i sicrhau'r wisg gywir.**

## RHAN B - CANLLAWIAU GWISG ADDYSG GORFFOROL YSGOL LLANHARI

Rhaid sicrhau fod y wisg gywir gan bob disgybl ym mhob gwers.

- Crys Addysg Gorfforol yr ysgol
- Top Coch (Chwarter sip) Addysg Gorfforol yr ysgol.
- Siorts DU plaen heb logo. **Ni chaniateir siorts byr iawn megis rhai Nike Pro.**
- Sanau du plaen neu sanau rygbi'r ysgol ar gyfer gemau / gweithgareddau allgyrsiol
- Pâr o esgidiau addas ar gyfer rhedeg a gemau ar ardaloedd caled.

## ATODIAD 3 – MEWNGOFNODI I BROMCOM

**I'W WNEUD YM MIS MEDI**


**Cam 1/ Step 1:**
Ewch i'ch 'App Store' ac ysgrifennu MCAS
*Open your App Store and write MCAS*
(MCAS -My Child at School)

**Cam 2 / Step 2:**
Gwasgwch 'Get' i'w lawrlwytho a gwasgu **open**
*Press 'Get' to download and then* ***open***




**Cam 3 / Step 3:**
**PEIDIWCH A LLEWNI'R MEYSYDD EBOST A CHYFRINAIR**
***DO NOT FILL THE EMAIL AND PASSWORD FIELDS***


Gasgwch y botwm **'Activate'**
*Press the* ***Activate*** *button*



**Cam 4 / Step 4:**
Llenwch god post yr ysgol
Cod Post: CF729XE
Dewis ysgol Llanhari a 'Contiune'

Gallwch hefyd newid i'r iaith
Gymraeg drwy wasgu'r botwm hwn


*Fill in the postcode for Llanhari*
*Postcode: CF729XE*
*Choose Ysgol Llanhari and Continue*




**Cam 5 / Step 5:**

Llenwch eich e-bost
Rhaid i hwn fod yr un fath â'r cyfeiriad e-bost sydd gennym ar gofnod eich plentyn.

*Enter your email address.*
*This has to be the same as the e-mail address we have on your child's record.*




**Cam 6 / Step 6:**
Byddwch yn derbyn cod un-tro yn syth i'ch e-bost. (gwiriwch y 'junk mail' hefyd!)
Copïwch a gludwch y cod, yna gwasgwch 'Verify'.

*You will recieve a one time passcode through email. (Check your junk mail too!)*
*Copy and paste the code and press Verify.*




**Cam 7 / Step 7:**
Y cam olaf yw dewis cyfrinair.
Bydd nawr yn gofyn am eich e-bost a chyfrinair. Caewch y porwr we ac ail agorwch yr ap. Bydd yn gofyn am eich e-bost, cyfrinair a chod 5 digid. Mae hefyd opsiwn o ddefnyddio system biometrig.
A dyna ni – chi mewn!

*The last step is to choose a password.*
*It will now ask for your email and password. Close the web browser and re-open the app. It will ask for your email, password and a 5 digit code. There is also the option of using a biometric system.*
*And that's it – you're in!*



**Cam 8 / Step 8:**
Os oes gennych chi fwy nag un plentyn yn yr ysgol, cliciwch ar lun y plentyn sy'n ymddangos yn gyntaf (top, chwith) a dylech chi weld gwybodaeth gweddill eich plant.

*If you have more than one child at the school, click on the picture of the child that appears first (top, left) and you should see your other children's information.*

Wrth drosglwyddo, mae'r ap hefyd wedi symud enwau brodyr a chwiorydd sydd wedi gadael yr ysgol erbyn hyn . Nid yw hyn yn broblem – ond os hoffech i ni dynnu rhain o'r system ym mis Medi, cysylltwch â ni ar yr e-bost isod.
*When transferring, the app has also moved the names of siblings who have now left the school. This is not a problem - but if you would like us to remove these from the system in September please contact us on the email below.*

Os oes unrhyw broblemau gyda'r ap – plis cysylltwch â'r ebost isod
*If there are any problems with the app - please contact the email below*

bromcom@llanhari.cymru